

## Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

### Gorffennaf 1af, 2014

**Presennol:** Dewi Jones (Cadeirydd), Alwyn Roberts (is gadeirydd), Alan Jones Evans, Cyngorydd Gwynedd, Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Huw P Roberts, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Ian Trow, Heledd Jones

- 1313** Wrth groesawu pawb i'r cyfarfod, estynnodd y Cadeirydd gydymdeimlad diffuant y Cyngor i Catrin Roberts a'r cysylltiadau oll yn eu profedigaeth ddiweddar.
- 1313** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar faterion ar yr Agenda.
- 1315** Nid oedd neb yn datgan buddiant ar fater ar yr Agenda.
- 1316** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Mehefin 3ydd 2014 a diolchwyd i Huw Antur am ei waith yn cofnodi.
- 1317** Nid oedd materion yn codi o'r Cofnodion nad oedd yn ymddangos ar yr Agenda.
- 1318** Adroddodd y Cyngorydd Sir ar y cais ddiweddaraf i fynd i'r Cynulliad parthed yr ysgol gydol oes a'r ddarpariaeth yn Y Bala ar gyfer y Chweched Dosbarth. Adroddodd hefyd y bydd ymgynghoriad ar ffederaleiddio'r ysgolion cynradd gwledig ym Mhenllyn, yn unol â dymuniad y Cynulliad.
- 1319 Materion Eiddo'r Cyngor**
- i. Y Fynwent newydd: cytunodd Karl Jones ac Arwel Lloyd Jones i asesu'r gwaith sydd angen ei wneud ar y wal.
  - ii. Toiledau: cytunwyd i'r Clerc ohebu am y bil dreth.
- 1320 Materion ariannol**
- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
  - ii. Cymeradwywyd taliadau a derbyniadau'r mis.
  - iii. Arwyddwyd ffurflenni ar gyfer agor Cyfrif Cadw a mandadau'r Banc.
  - iv. Cytunwyd i'r Cadeirydd arwyddo ffurflen Hacker Young.
- 1321 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned**

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Dewi Jones

---

- i. Cytunodd Alan Jones Evans i drefnu bod gwaith tocio gwrych yn cael ei wneud er mwyn gwella gwelededd gyferbyn â stryd Erw Fron.
- ii. Cytunodd Arwel Lloyd Jones i geisio rhoi terfyn ar yr ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n digwydd yn ddiweddar yn lloches bws Tŷ'n Ddôl.

**1322 Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a soniwyd am y blwch gonestrwydd a osodwyd wrth faes parcio'r Hen Felin, ac am ddatblygiadau yn yr Henblas.

### **1323 Gohebiaeth:**

#### **1. Parc Cenedlaethol Eryri:**

- i. Cymeradwywyd cais NP5/71/LB43E, sef amrywio amodau i ganiatâd a roddwyd i newidiadau yn y Prys Mawr.
- ii Derbyniwyd gwybodaeth am dystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer defnydd mewn bodolaeth, sef 5 carafán deithiol a 15 llain pabell gwyliau ar safleoedd wedi eu pennu ar lan yr afon ar dir ym Mwch yn Uchaf.
- iii Derbyniwyd gwybodaeth am ddyddiadau cyfarfod prif bwyllgorau Parc Cenedlaethol Eryri am y flwyddyn.

#### **2 Gwynedd:**

- i. Ystyriwyd dogfen ymgynghorol ar Ysgol Arbennig Dwyfor a Meirionnydd a chytunwyd i gymeradwyo Opsiwn 4.
- ii. Nodwyd derbyn gwybodaeth am estyniad tan 31/7/14 ar gyfer anfon ymateb am holiaduron lleol am y farchnad dai.

#### **3 Un Llais Cymru:**

- i. Derbyniwyd trwy e-bost y Côd Ymarfer ar faterion gweithlu .
- ii. Derbyniwyd copïau o "Y Llais".

#### **4 Eraill:**

- i. Derbyniwyd gwybodaeth ar ffurf e-bost am fand-lydan sydyn yn cyrraedd Llanuwchllyn ym mis Medi.
- ii Nodwyd derbyn adroddiad blynyddol yr Ombwdsman.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: Medi 2/9/14 yn y Neuadd Bentref.

*Amser gorffen: 8.45pm*